YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIV. MEDI, 1944. RHIF 9.

Canmlwydd Cyfraith.

DISSENTERS' CHAPELS ACT, 1844.

PRIS coleddu Undodiaeth cyn pasio'r *Trinity Act* yn 1813 oedd carchar a cholli braint dinesydd. Gwir na roddwyd y gyfraith mewn grym am lawer o flynyddoedd cyn 1813. Gweler hanes cychwyn Pantydefaid a Chapel y Groes yn 1802. Cofier am sefydlu Cymdeithas Undodaidd De Cymru yn yr un flwyddyn yng Ngelliionnen.

Disgrifir y *Trinity Act* yn swyddogol fel un sy'n "rhyddhau personau sy'n amau athrawiaeth y Drindod Santaidd o gospau neilltuol." Effaith yr act oedd rhyddhau'r Anghydffurfwyr yn gyffredinol. Ni ellid gorfodi Anghydffurfiwr mwyach gan y gyfraith i fod yn Drindodwr. Gwelai'r Undodiaid yn hyn galondid i'r Anghydffurfwyr gyhoeddi yn amlwg eu Hundodiaeth.

O fewn pedair blynedd, ar ôl pasio'r *Trinity Act*, dechreuwyd y frwydr hir, gyda llawer iawn o gost i'r Undodiaid, er mwyn sicrhau meddiant o'u tai cyrddau. Yr oedd amryw o'r hen gynulleidfaoedd a sefydlwyd yn union wedi'r *Act of Toleration* (1689) bellach wedi coleddu Undodiaeth, ac yr oedd y *Trinity Act* wedi anghofio Gweithredoedd yr hen addoldai. Gwrthwynebwyr yr Undodiaid yn y strygl hon oedd yr Annibynwyr, a ddechreuai ar y pryd hwn fabwysiadu'r term "Cynulleidfaolwyr." Anfynych y byddai gweiredoedd tai cyrddau hynaf yr Anghydffurfwyr, gan amlaf yn Galfinaidd eu safbwynt, yn gosod allan fanylion eu daliadau. Yn hyn yr oeddynt yn wahanol i *Weithredoedd Gwaddol.*

Dadleuid nad oedd yn gyfreithlon defnyddio'r *Trusts* hyn at ddibennion crefyddol a oedd yn groes i ddaliadau'u sylfaenwyr,—dibennion crefyddol a oedd yn anghyfreithlon yn adeg sefydlu'r *Trusts.*

Dechreuwyd y cyfreithia yn 1817 ynglyn â chapel Wolverhampton —dyddiad y Weithred oedd 1700. Paratowyd achosion eraill

mewn amser byr. Ond nid oedd y ddedfryd ar gapel Wolverhampton yn foddhaol i'r Anghydffurfwyr iawnffyddol. Yn ôl dyfarniad Lord Eldon yn y Court of Chancery golygai'r ymadrodd —"addoli Duw"—gynnal a lledaenu Crefydd Sefydledig y wlad. Aeth yr adeilad i feddiant Eglwys Loegr. Yn 1830 codwyd mater pwysicach. Yn 1705 sefydlwyd cronfa fawr gan Lady Hewley i gynorthwyo y "poor and godly ministers of Christ's holy gospel" yr ochr uchaf i afon Trent. Trwy ddatblygiadau graddol daeth y *Trust* dan oruchwyliaeth ymddiriedolwyr a oedd yn Undodiaid. Wedi cyfreithia am ddeuddeg mlynedd penderfynwyd yn erbyn yr Undodiaid yn y Court of Appeal. Dyma'r dyfarniad a oedd yn rheoli'r dyfarniad ym mhob achos arall.[1] Nid oedd mwyach yn gyfreithlon defnyddio meddiannau'r hen Anghydffurfwyr, a chaniatau mai Undodiaid a'u sefydlodd, at ddibennion yr Undodiaid.

Effaith hyn oll oedd gwahardd i'r Undodiaid adeiladau a mynwentydd eu teidiau, adeiladau yr ychwanegasant hwythau lawer iawn tuag atynt. Dyma'r adeg y ffurfiwyd y "Presbyterian Union" er mwyn diogelu'r adeiladau a'r meddiannau y bygythid yn awr eu cymryd oddiwrthynt. Dyma'r adeg hefyd y bu mintei-oedd o Undodiaid ledled y wlad yn ystyried cynlluniau i ymfudo gyda'i gilydd.

Yn Llundain yr oedd cyfreithiwr ifanc, Edwin Wilkins Field, un o ddisgynyddion Olifer Cromwel. Ei gyngor ef oedd ymladd y frwydr yn y Senedd. Gwnaethpwyd hynny, a'r canlyniad oedd pasio'r *Dissenters' Chapels Act*, Gorffennaf 1844. Sicrhaodd yr Act hon i'r Undodiaid feddiant o'r *Trusts* nad oes ynddynt gyfeiriad at athrawiaethau, os gallent brofi iddynt fod yn eu gwasanaeth am bum mlynedd ar hugain. O blaid yr Act siaradodd W. E. Gladstone, ef ei hun yn Uchel-Eglwyswr, yn huawdl, a dengys ei eiriau amgyffred gafaelgar o'r mater :

> "Here were certain persons, who founded these chapels, entertaining one creed, and the present possessors of these chapels profess another creed. I admit that this sounds startling. But if you take the pains to follow the course of events from year to year, it is impossible to say that *at any given period* the transition from one doctrine to another was made. It was a gradual and imperceptible transition. The parties who effected it made a different use of the principle of inquiry by private judgment than those who had preceded them ; but *they acted on a principle fundamentally the same.*"

Y mae cyfraith 1844 fel carreg filltir bwysig yn hanes Undodiaeth ym Mhrydain Fawr. Torrodd gwawr cyfnod newydd, ac i'r cyfnod newydd hwn y mae ei nodweddion amlwg. Adnewyddwyd o'u

[1] "The Trust was created for the benefit of congregations professing doctrines tolerated by the existing laws (at the time of foundation) ; which the preaching of Unitarian doctrines was not." Yr Arglwydd Ganghellor ar achos Wolverhampton, Tachwedd, 1842.

seiliau lawer o'r hen dai cyrddau : sefydlwyd cymdeithasau newyddion : cychwynnwyd coleg newydd ym Manceinion (Unitarian Home Missionary Board) er mwyn paratoi efrydwyr ar gyfer y weinidogaeth, ac i gwrdd a'r treuliau ffurfiwyd *Trusts* newydd gan ddynion o gyfoeth fel Christopher Rawdon a Robert Hibbert.

Ond gadawodd cyfraith 1844 effaith amlwg hefyd ar *feddwl* Undodiaeth. Bu'n gyfrwng i rwystro propaganda athrawiaethol, ac mewn rhai cylchoedd yn foddion i ddigalonni pob ymdrech i ddeffinio'n glir ein daliadau. Dywed Alexander Gordon, "after the ancient chapels were made safe, the Presbyterian idea was chiefly in evidence when denominational zeal was to be discountenanced."

Wedi pasio Act 1844 gwelir yn amlwg y ddau ogwydd sydd mewn Undodiaeth, dau ogwydd sy'n hanfodol i fywyd Undodiaeth, dau ogwydd a allant gydweithio ond, yn anffortunus, yn fynych iawn mynnant wrthwynebu ei gilydd—y dymuniad am *ryddid meddyliol* a'r dymuniad am *athrawiaeth bendant.*

[Bwriadwyd cyhoeddi'r ysgrif hon yn rhifyn Awst, ond methodd yr ysgrifennydd a'i chwblhau mewn pryd. Am fanylion pellach ar y testun gweler *Heresy : its Ancient Wrongs and Modern Rights* (Alexander Gordon) a *Liberty and Religion* (S. H. Mellone). —GOLYGYDD].

Y Weinidogaeth.

WRTH annerch y myfyrwyr[1] a oedd yn gadael Coleg Caerfyrddin ddiwedd mis Mehefin diwethaf, dywedodd y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. mai cychwyn yr oeddynt ar fenter wirioneddol. Yr oedd eu hwyneb tua gwlad anhysbys. Bydd y byd newydd wedi'r rhyfel yn lle tra gwahanol i'r un ydoedd hyd yn oed bum mlynedd yn ôl. Bydd yr amgylchiadau allanol yn wahanol, yr hen arferion hamddenol wedi mynd, hen dawelwch y Sabath wedi diflannu, yr arfer o fynychu'r addoliad i raddau helaeth wedi ei wanhau ac yn gorfod cystadlu a llawer iawn o alwadau eraill.

Dywedai'r siaradwr iddi fod mewn ymgom â ffermwraig. Y dydd hwnnw leddid y gwair ar y fferm. Pan aeth y wraig i alw'r gweithwyr i ginio, gwelai eu bod wrthi'n lladd yr ail gae. Ymhen awr neu ddwy aethant i fferm arall. Mor wahanol i'r amser,

[1]Crynodeb o araith y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. yng nghyfarfod blynyddol Coleg Caerfyrddin, Mehefin 28, 1944.

ychydig flynyddoedd yn ôl ! Mwy gwahanol fyth i'r amser, *lawer* o flynyddoedd yn ôl, dyddiau'r bladur cyn y peiriant geffyl ! Gwir y cai'r pladurwr beth hamdden i feddwl am bregeth y Sul diwethaf. Bydd yn anodd i ddreifiwr y tractor wneud hynny. Fel pobl y trefi y mae'r "mynd" yn cael gafael ar bobl y wlad. Digwyddodd cyfnewidiad mawr yn y modd y mae'r bobl yn byw ; y mae'r galwadau ar hamdden y bobl wedi cynyddu. Nid rhyfedd felly fod yr eglwys a'r capel yn cael llai o le'n eu meddyliau. Ar raglen yr wythnos rhaid i'r tŷ cwrdd gystadlu a'r sinema a'r radio.

Yn y gorffennol arferai'r gweinidog gymryd ei ochr yn nadleuon sectyddol. Yn awr daw dan feirniadaeth dynion sy'n drwgdybio pob math ar grefydd sefydledig, dynion sy'n gweld dim ond propaganda mewn pregeth ac yn ffaelu â gweld unrhyw reswm dros eglwysi.

Ond nid yw'r pictiwr mor dywyll â hynny hefyd. Y mae iddo ei fannau golau. Un peth, yr ydym yn adnabod y sefyllfa. Y mae rhywbeth mwy nag hen arfer a gorfodaeth yn tynnu'r bobl heddiw i'r addoldai. Dont am fod addoli'n golygu rhywbeth iddynt. Ystyriant eu crefydd yn beth difrifol, ac y mae ganddynt gydymdeimlad â'r gweinidog. Os ydyw arferion traddodiadol crefydd yn colli'u gafael, y mae argoelion fod diddordeb dynion mewn *crefydd* yn fwy. Y mae cynhyrfiadau'r amser yn peri iddynt holi'n ddifrifol beth yw pwrpas bywyd, ac y mae'r sawl sy'n gwneud hynny ar y ffordd i gael gafael mewn crefydd—peth gwell o lawer na chymryd eu crefydd yn beth ail-law.

Yng nghyfnewidiad yr amgylchiadau tyfodd dynion yn fwy beirniadol o rai ffurfiau crefyddol. Ond o blymio dan yr wyneb gwelir fod anghenion sylfaenol y ddynoliaeth yn dal yr un.

Y mae ar ddynion angen anghorfa ysbrydol. Y mae arnynt angen gwroldeb yn wyneb profedigaeth, sylfaen i'w hymddiriedaeth, cymorth i ddehonglu profiadau dyfnion bywyd. Y mae arnynt angen arweinwyr i'w tywys at y ffynhonnau i dorri eu syched ysbrydol. Hiraethant am dangnef meddwl. Ceisiant feddiannu eu heneidiau. Ac wrth wneud hynny tynnant yn agos at Dduw.

O ba faint bynnag y bydd y cynulleidfaoedd bydd ynddynt ddynion mewn angen am weinidogaeth bersonol, a braint bennaf gweinidog yw "llawenhau gyda'r rhai sydd yn llawen, ac wylo gyda'r rhai sydd yn wylo," meddyginiaethu'r galon ddrylliog, a chynorthwyo dynion i sefyll ar eu traed. Y mae plant y mae'n rhaid iddo eu deall. Y mae pobl ieuainc a'u problemau'n gwasgu arnynt. Y mae'r hen yn galw am gydymdeimlad. Rhaid i'r gweinidog fod yn dad i'r ifanc, yn fab i'r hen, yn frawd i bawb. Pa mor ddiddorol bynnag y gall gwaith tuallan i gylch y weinidogaeth fod, ni ddylai'r gweinidog esgeuluso agwedd bersonol y weinidogaeth. Bydded yn fugail yn ogystal a phregethwr.

Disgwyl y gynulleidfa i'r gweinidog ystyried cwestiynau pwysig y dydd yng ngolau argyhoeddiad moesol a chrefyddol. Ni ddisgwylir iddo fod yn *expert* mewn economeg neu ar fanylion polisi dramor ond disgwylir iddo weld pa le y mae egwyddorion moesol a chrefyddol yn gwrthdaro yn erbyn amcanion politicaidd y dydd. Hawlia hyn feddwl clir a safiad gwrol dros gydwybod. Golyga'n fynych frwydro yn erbyn y farn gyhoeddus, ond mewn amgylchiadau felly testir cadernid argyhoeddiad. Gall dyn fod yn ddim ond llais yn y diffaethwch, ond bydd pob aelod ffyddlon, er credu ohono fod ei weinidog yn anghywir, yn parchu ei egwyddor. Y mae bron pob syniad da a goleddwyd erioed wedi ei goleddu ar y dechrau gan y lleiafrif.

Cymerer, er enghraifft, y bai am y rhyfel (war-guilt)—cwestiwn a fydd yn fwy amlwg o hyd fel y bydd y rhyfel yn nesu at y terfyn. Peth rhwydd yw deffro dicter cyfiawn a dymuniad am ddialedd yn rhith cosp.

Ceir tystiolaeth o hynny'n ddyddiol yn y Wasg. Wrth gwrs, rhaid fod cosp, a honno'n gosp ataliol, ond gwae'r byd a'r genhedlaeth sy'n codi, os rhoddir llwybr rhydd i'r rhai sy'n gwaeddi am ddialedd. Pwy a saif ar ei draed yn erbyn y gri boblogaidd am ddialedd ? Yn siwr, edrychir at arweiniad yr eglwysi a'u hefengyl maddeuant a brawdoliaeth. Edrychir atynt ddal i fyny faner mawrfrydigrwydd cenedlaethol. Apeliant at nodweddion gorau dynolryw, fel y troir wyneb y byd i gyfeiriad heddwch gwirioneddol.

Da gennyf weld pwy ddydd weinidog o Eglwys Czechoslovakia, caplan gyda byddin y wlad honno ym Mhrydain, gwlad a ddioddefodd yn annhraethol dan orthrwm y gelyn, yn apelio i fintai o eglwysi'r wlad hon ddanfon allan ddynion yn union ar ôl y rhyfel, nid yn unig at y Czechiaid ond at bawb, er mwyn adnewyddu eu tangnefedd meddyliol. Ni soniodd air am gospi'r drwg-weithredwyr, ond gofynnodd am gymorth i bawb er mwyn iachau eu heneidiau.

Ar gwestiwn athrawiaeth grefyddol y mae gan y gweinidog ei argyhoeddiadau, ond nid yw ffyddlondeb i argyhoeddiad yn rhwystr i ddyn barchu a cheisio deall argyhoeddiadau dynion eraill. Daw'r gweinidog heddiw i gyffyrddiad â dynion sydd wedi lledaenu eu gwybodaeth ar feysydd y rhyfel—dynion sydd wedi dysgu parchu duwioldeb y Moslem, wedi gweld nodweddion gorau pobl China, ac eraill y byddai ein teidiau'n edrych arnynt mewn tosturi, ac weithiau gyda dirmyg, fel paganiaid yn eu dallineb yn plygu o flaen carreg a phren. Dibwys yn eu golwg y bydd llawer o'r achosion sy'n gwahanu'r sectau, ond dysgasant fod crefydd yn siarad mewn llawer iaith. Er mynegi crefydd mewn llawer modd, y mae ei gwreiddiau'n ddwfn yn y natur ddynol.

Yn anffortunus, oherwydd fod crefydd wedi gwreiddio mor ddwfn, bu'n achos llawer o frwydro chwerw yn y gorffennol. Y

mae'n rhwym arnom weld fod crefydd yn y dyfodol yn *uno* ac nid yn *gwahanu*. Yr unig ffordd i wneud hynny ydyw ceisio deall safbwyntiau dynion eraill mewn cydymdeimlad. Gorffwys cyfrifoldeb ar weinidogion yr efengyl glirio meddyliau eu cynulleidfaoedd o ragfarnau culion. Edrych eu cynulleidfaoedd atynt i'w harwain at bresenoldeb Duw, ac ni allant wneud hynny oni bydd iddynt wybod y ffordd eu hunain.

Not always on the mount may we
Rapt in the heavenly vision be . . .

Yet, hath one such exalted hour
Upon the soul redeeming power,
And in its strength through after days
We travel our appointed ways.

The mount for vision, but below
The paths of daily duty go,
And nobler life therin shall own
The pattern on the mountain shown. (Hosmer).

Y Gymdeithas Gyffredinol.

(*Parhad o rifyn Gorffennaf.*)

Yn rhifyn Gorffennaf rhoddwyd manylion y Cyfarfod Busnes a'r Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar Fehefin 6 yn Essex Hall. Ar Fehefin 7 cynhaliwyd Cynhadledd, a'r testun oedd TASCAU AGOSAF YR AIL-DREFNU YN EIN HEGLWYSI (Immediate tasks of reconstruction in our churches). Dywedodd y cadeirydd (Parchedig A. H. Lewis, B.D., Shrewsbury) fod y byd heddiw'n cyhoeddi barn ar werth rhyddid. Er hynny, nid rhyddid sydd mewn perygl ond ein cymwysterau ni i'w hyrwyddo. Dyry'r presennol inni gyfle i benderfynu ein rhan yn llunio'r dyfodol.

Y ddau brif siaradwr oedd Dr. Stanley J. Kennett (Lerpwl) a'r Parchedig John Kielty (Stockport). Cadeirydd y Comisiwn ar waith yr eglwysi yw Dr. Kennett, ac edrychodd ar ei bwnc o safbwynt yr eglwysi fel unedau cyflawn. Canolbwynt holl weithgarwch yr eglwys yw addoli, ac addoli yw amod ymdrech dyn am fesur helaethach o gymundeb a'r Duw sy'n llefaru yn ei gydwybod. I'r dyn cyffredin y mae'r gyfeillach grefyddol yn anghenraid.

Os addoli yw canolbwynt holl weithgarwch yr eglwys, canlyniad addoli, medd Dr. Kennett, yw gweledigaeth gliriach o amcanion bywyd a thystiolaeth o gyfarwyddyd Duw yn y bywyd beunyddiol. Nac anghofier ochr ymarferol bywyd.

Ceisiodd Dr. Kennett ddangos y gwahanol elfennau sydd yng nghyfansoddiad eglwys. Gwaith y gweinidog yw arwain yn yr addoliad. Y mae ganddo gymwysterau at hynny. Am yr aelodau, dywedodd Dr. Kennett fod eu dolen gydiol yn gwahaniaethu o eglwys i eglwys, er fod un peth yn gyffredin iddynt i gyd, sef cyfrannu'n flynyddol. Nid oes dim allan o le mewn gwneud sylfaen aelodaeth yn fater ariannol, oherwydd fod i achos crefyddol, fel i bob achos arall, ei dreuliau, a dymunol i'r aelodau ymrwymo i dalu'r gost. Er hynny, dylai aelodaeth eglwysig olygu iddynt fwy na hyn, a chamgymeriad yw gwneud amod yr aelodaeth yn rhy lydan, neu'n rhy amhendant, neu'n rhy rwydd. Y mae hynny'n gostwng gwerth aelodaeth. Fel enwad, ni allwn ni bwysleisio coleddu daliadau neilltuol, ond dylem geisio ffordd i egluro ein safbwynt cyffredinol. Canmolodd Dr. Kennett yr arfer o baratoi pobl ieuainc ar gyfer eu derbyn yn aelodau cyflawn.

Rhodder ystyriaeth i'r gwahanol elfennau sydd yn y gwasanaeth, a cheisier eu gwneud yn fwy effeithiol. Y mae perygl mewn bod yn rhy gynefin ag arfer digyfnewid ; hwyrach nid ein trefn arbennig ni, wedi'r cyfan, yw'r mwyaf effeithiol. Yng nghanolfan pob trefn gwasanaeth y mae gweddi, ac uwchlaw popeth dylai'r weddi fod yn fynegiant didwyll o feddwl y gweddïwr, bydded yn weddi o lyfr neu o'r frest. O bryd i bryd dylid diwygio pob ffurf-wasanaeth. Pwysig hefyd yw dewis yr emynau a'r gerddoriaeth er mwyn cadw lefel y gwasanaeth yn uchel mewn meddwl a theimlad. Y mae lle i'r bregeth athrawiaethol, ond dylai'r pregethu fod yn ysbrydiaeth yn tarddu o brofiad cyffredin gweinidog a'i gynulleidfa. Dylid hefyd gael gwasanaethau arbennig yn amlach.

Canolbwyntier holl weithgarwch yr eglwys ar yr act o addoli, a rhodder hefyd gyfle i'r addolwyr i gorffoli'r ysbrydiaeth sy'n tarddu o'r addoliad. Bydd holl weithrediadau'r eglwys wedyn yn mynegi'r ymdeimlad dwys o gyfeillach grefyddol.

Penderfynwn fel y bydd y rhai sy'n dod yn ôl o Wasanaeth Cenedlaethol gael yn ein heglwysi gyfeillach gref ac adnewyddiad gobaith. Bydd yr eglwys a all wneud hynny yn un o sefydliadau pwysicaf cymdeithas, y *power-house* sy'n arllwys ei nerth i mewn i fywyd.

Mynegodd y Parchedig John Kielty, ysgrifennydd y Comisiwn ar waith yr eglwysi, ei ymddiriedaeth yn y dyfodol. Ein hangen yw'r ymdeimlad enwadol ac adennill ysbryd y *pioneer*. Bodlonasom ar aros yn yr unfan. Er mwyn symud rhaid i ni wrth gyfarwyddyd. Rhaid rhoi sylw i'r manylion lleiaf. Gofaler fod yr adeiladau yn cynorthwyo, ac nid yn rhwystro, ein hachos. Dylid cadw llygad gofalus ar bob rhoddion ariannol o gronfeydd canolog er mwyn gweld a ddefnyddir hwy i'r fantais orau. Dylid annog y cymdeithasau rhanbarthol i gymryd diddordeb mwy byw yng nghynulleidfaoedd eu cylch. Lle y mae safle eglwys yn wael dylid ei symud i

safle well. Cydnebydd y War Damage Commission hyn, ac y mae'n barod i dalu iawn am ei symud. Anghywir dweud fod eglwys wedi ei chau, a hithau wedi ei symud i fan arall.

O bwys mawr, medd Mr. Kielty, y mae'r weinidogaeth. Heb broffwydoliaeth, diwerth ein meddiannau i gyd. Rhaid gweld fod gan bob eglwys weinidogaeth. Rhaid paratoi mor fuan ag y gellir ryw gynllun i rannu ein hadnoddau. Credai y byddai'r eglwysi cryfaf yn respondio pe gofynnid iddynt yn y ffordd iawn. Bydd angen gosod eglwysi gyda'i gilydd, ond annoeth fyddai gwneud grwp o eglwysi gweinion yn unig. Credai Mr. Kielty y dylem dderbyn rhyw ffurf ar sistem cylchdaith y Methodistiaid, ac ni ddylai ffiniau'r cymdeithasau rhanbarthol rwystro'r cynlluniau.

Pryderai Mr. Kielty am lacrwydd y General Assembly i ffurfio polisi. Credai fod gogwydd y bobl yn radical, ac na chaent foddhad mewn uniongrededd. Rhoddai hyn gyfle i'r General Assembly greu linc dynnach rhwng y cynulleidfaoedd. I bob eglwys dylai ddanfon cynrychiolydd er mwyn ymdrafod a'i problemau. Gellid gwneud yr un peth gyda'r cymdeithasau rhanbarthol. Pan godai cwestiynau yn ymwneud a mwy nag un gymdeithas gallai'r General Assembly fod yn ganolwr. Y mae'n bryd cychwyn Mudiad Ymosodol, yn ogystal â chenhadaeth, dan nawdd y General Assembly, a dylai pob gweinidog baratoi ei bobl ar gyfer hynny. Awgrymai ddanfon deg o bartion o ddau ddyn yr un i gynnal wythnos o genhadaeth ymhob lle, a gellid gwneud hynny am ddeg wythnos ar hugain yn y flwyddyn. Ar unwaith dylid ymgynghori a gwŷr profedig ynglŷn â phlanio adeiladau newydd. Dylai'r eglwysi wneud eu cynlluniau adeiladol yn hysbys i'r cymdeithasau rhanbarthol a'r General Assembly. Cyn hir bydd gwaith y COMMISSIWN AR EIN FFYDD yn ein llaw. Penderfynwn weld fod ein cyfryngau'n deilwng i gymell y ffydd hon i'r bobl. Rhodder her i bob adran o'n mudiad—Cymdeithas yr Ysgol Sul, Cymdeithasau Ieuenctid, ein Gŵyr a'n Gwragedd—wneud y paratoadau angenrheidiol ar gyfer yr ymdrech fawr gydweithredol i adnewyddu ein bywyd eglwysig.

YR YMDRAFODAETH

Siaradwyd gan lawer. Pwysleisiodd Mr. Norman Blake (Somerset) yr angen o symud ban y B.B.C. ar Undodiaid yn darlledu gwasanaethau crefyddol, ar werth esiampl yn ein gwaith gyda'r ieuenctid yn hytrach nag apeliadau, a gofynnai am sylw mwy i Wasanaeth y Cymun. Cytunai'r Parchedig Basil Viney (Abertawe) ar yr angen i symud ban y B.B.C., a phwysleisiodd werth y "bregeth addysgiadol." Cyfeiriodd Mr. Reece Walker (Llundain), un a fu am dymor ym Morgannwg gyda'r noddedigion, ac a roes wasanaeth gwerthfawr i'n heglwysi yno, at y drafodaeth ar adrannau crefyddol y Bil Addysg. Edrychai Mr. Elenjimittam (Manchester

College, Rhydychen) ar Undodiaeth fel un o'r galluoedd bywiol sy'n ceisio gwell dealltwriaeth rhwng crefyddau'r byd. Cymdeithasu a phawb sy'n ceisio'r gwirionedd yw un o nodweddion y Brahmo Samaj yn yr India. Gofynnai am ein diddordeb ni yn y mudiadau diwygiadol sy'n y byd yn gyfan. Adgofiwyd ni gan y Parchedig W. B. Taverner (Edinburgh) mai ein dyledswydd bwysicaf yw tystiolaethu i wirionedd. Gall fod gan eraill well deniadau i dynnu dynion i addoli, ond ein hunig gyfiawnhad ni yw'r weledigaeth o'r gwirionedd. Yn ein tystiolaeth rhoddwn le i Dduw, i'r Deyrnas, ac i'r angen am edifeirwch. Cyfeiriodd Mr. Ronald Bartram (Llundain) at ein diffyg o'r ymwybod enwadol ; dylai fod gan bob eglwys ei Thrysorfa Adeiladu ; ar bwyllgor pob eglwys dylid cael brwdfrydedd ieuenctid a phrofiad yr hen, a pheth daionus yw newid y pwyllgor o dro i dro. Awgrymodd Mr. E. G. Green (Llundain) ein rhwymedigaeth tuag at ddieithriaid a'r ddyledswydd o gyhoeddi ein cenadwri y tu allan i furiau'r eglwys.

* * * *

Bore dydd Iau bu cynhadledd ar FATERION ERAILL (Wider Issues), y Parchedig H. S. Carter (Mansfield) yn y gadair. Ymwneud â phroblemau cartrefol oedd amcan y gynhadledd y diwrnod cynt : ymwneud â phroblemau rhyngwladol oedd amcan y gynhadledd hon.

Siaradwyd gan Sq-Ldr. y Parchedig KAREL VIT, caplan gyda llu awyr Czechoslovakia. Soniodd am gysylltiad agos eglwys genedlaethol Czechoslovakia a'r mudiad Undodaidd ym Mhrydain. Dywedodd am angen ei bobl am galondid. Y mae eisiau cryfder i wrthwynebu *pressure* parhaus propaganda. Wedi cau allan y golau am bum mlynedd y mae dyn yn tyfu yn raddol yn ddall. Gwyddai am anawsterau eglwysi dan sawdl y Natsi, y Gestapo'n sensor ar y bregeth a gorfod darllen y llawysgrif air am air. Y mae llawer o'r gweinidogion eisoes yn y *concentration camps*.

Y gwaith pennaf, meddai, wedi'r drin fydd adeiladu calon nau ac eneidiau pobloedd Ewrop, a gofynnodd i'r gynulleidfa ymuno ag ef mewn gweddi ddistaw dros y rhai sy'n ceisio gwneuthur hyn.

Siaradodd y Parchedig MARGARET BARR ar broblemau'r genhadaeth yn yr India. Nid oedd yn hapus am gulni'r Cristnogion. Gwrthodent gydweithio a chymdeithasau Indiaidd a oedd yn wir adeiladwyr Teyrnas Dduw. Yr oedd nodweddion y mudiad Undodaidd yn dra gwahanol.

Estynnwyd dymuniadau cynnes yr America gan y Parchedig Capt. R. H. PALMER, caplan gyda'r fyddin. Beirniadodd yn llym ein harferion crefyddol, a mynnai weld crefydd yn rym creadigol. Siaradwyd hefyd gan gaplan arall, y Parchedig. Capt. CURTIS T. SPENCE, a'i disgrifiodd ei hun fel "Undodwr hen-ffasiwn."

Y Gyfraith Iddewig.

CAM YMLAEN.

Gan y Parch. LEWIS WILLIAMS, Rhydygwin a Chiliau Aeron.

CYMHARIR addysg y Gyfraith Iddewig ag addysg y Gyfraith Gristnogol, a gwelir fod addysg y Gyfraith Gristnogol yn rhagori ar addysg y Gyfraith Iddewig. Rhaid mynd o'r tu ôl i'r Gyfraith Iddewig er mwyn gweld fod addysg y Gyfraith honno hefyd yn rhagori ar yr addysg a'r arferion cyn dyddiau'r Gyfraith Iddewig.

Un peth a ddysgir gan y Gyfraith Iddewig yw—"Llygad am lygad, a dant am ddant." (Ecsodus xxi. 24). Onid yw'r gyfraith hon yn greulon iawn? Ydyw, yn ddiamau, yn ein golwg ni. Wrth eu barnu yng ngoleuni'r Gyfraith Gristnogol ymddengys yn un greulon i ni. Ond pan roddwyd y Gyfraith hon yr oedd y Gyfraith Gristnogol heb ei dadlennu. Pan roddwyd y Gyfraith Iddewig, "Llygad am lygad, a dant am ddant," yr oedd yn rhagori ar yr addysg a'r arferion cyn hynny. Rhaid cofio hynny er mwyn gweld mai pêth daionus ydoedd cael y Gyfraith Iddewig.

Cyn cael y Gyfraith hon nid oedd derfyn ar ddial, a diben y Gyfraith ydoedd rhoi terfyn arno. Y mae'n rhagori ar yr addysg cyn hynny am ei bod yn cyfyngu ar y dial. "Llygad am lygad"—ie, a dim mwy na hynny. "Dant am ddant"—ie, ond peidier a chospi mwy na hynny. Cyn hynny nid oedd derfyn ar gosp. Rhoi terfyn ar gosp yw diben y Gyfraith Iddewig.

Gwelir felly ei bod yn graddol gyfyngu ar y dial. Nid yw'n diddymu'r arfer yn llwyr ac ar unwaith. Dichon mai gwell oedd peidio â gwneud hynny. Ni ellid disgwyl oddiwrth y bobl fwy nag oedd cyflwr eu meddwl a sefyllfa'u hysbryd yn rhoi hawl i ddisgwyl oddiwrthynt. Yn araf y mae dynion yn cynyddu. Gormod ydoedd disgwyl i ddynion ymddyrchafu o sefyllfa mor isel i sefyllfa y gallent gyflawni ynddi ofynion yr Efengyl. Rhaid eu harwain o gam i gam at fywyd gwell. Fel hyn y paratowyd y bobl i dderbyn Cristnogaeth. Cam ymlaen oedd y Gyfraith Iddewig ac arwydd o gynnydd crefyddol.

Cam mawr arall ymlaen yw Cristnogaeth. Gofyn Cristnogaeth i ni nid cyfyngu ar ein dial ond ei orchfygu'n llwyr, a pheidio â rhoddi lle iddo yn ein calonnau. Ni oddef y Gyfraith Gristnogol ddial mewn un ffurf arno. Dichon yr ymddengys i rai yn beth hollol naturiol i ddyn hawlio iawn oddiwrth un a fyddo wedi achosi cam iddo. Ond teimlad dialgar sydd wrth wraidd hynny, ac nid oes lle i deimlad felly yn y Grefydd Gristnogol. Oblegid hynny gelwir arnom orchfygu pob meddwl am ddial a ddichon gyfodi o'n mewn.

Gofyn y mater hwn am eglurhad pellach. Dysg y Grefydd Gristnogol fod gan ddyn ei ddyledswydd i weld fod hawliau cyfiawnder yn cael eu parchu. Dywed y Gyfraith Gristnogol, "Os pecha dy frawd i'th erbyn . . ." Beth am hynny? Na chymer un sylw ohono; gad lonydd iddo. Na, nid felly chwaith. "Os pecha dy frawd i'th erbyn, dos, argyhoedda ef rhyngot ti ag ef ei hun." Gwna bob ymdrech i'w argyhoeddi o'i bechod a'i ddwyn i edifarhau. Ond os gwrthyd wrando arnat, yna, "bydded efe iti megis yr ethnig a'r publican." Hynny yw, disgybla ef—nid ei adael i bechu drachefn, heb ofalu dim amdano, ac heb wneud y gorau i'w oleuo i ganfod drygedd ei bechod a chael ganddo ei ffieiddio a'i adael.

Dysgir gan y Gyfraith Gristnogol arfer goddefgarwch at droseddwr, a dysgir ganddi hefyd y dylid disgyblu'r troseddwr a cheisio'i ddwyn i ganfod drygedd ei drosedd. Gellid meddwl fod y ddau beth hyn yn anghyson a'i gilydd. Ond dweud y maent am ddwy ddyledswydd y dylai pob Cristion eu cyflawni. Yn gyntaf, dangoser pob goddefgarwch; peidier â chaniatau i'n teimladau gael y gorau arnom a'n harwain i ddial am gam. Wedi ein disgyblu ein hunain i gadw pob nwyd o dan lywodraeth, wedi gorchfygu pob awydd ynom i ddial am gam a barwyd i ni, yna, ystyried yn bwyllog beth i wneud er mwyn dysgu'r troseddwr i beidio â chyflawni peth cyffelyb eilwaith. Os credwn fod lles y troseddwr ei hunan a lles cymdeithas yn gofyn am gospi'r troseddwr, gofalwn fod y gosp yn un a gaiff effaith dda arno. Mewn rhai achosion gellir gwneud cam â chymdeithas ac â'r troseddwr ei hunan trwy fod yn rhy oddefgar a gadael i'r troseddwr ddianc heb unrhyw gosp.

Y cwestiwn yw—beth sydd yn annog y dioddefwr i gospi'r troseddwr? Ai er mwyn lles y troseddwr ei hun a lles cymdeithas y gwna hynny, ynte oddiar deimlad dialgar er mwyn bodloni rhyw nwyd ynddo ef ei hun? Yn erbyn hyn y mae'n rhaid ymdrechu. Peidiwn a gadael i deimladau dialgar lywodraethu arnom. Nid yw y gwir Gristion, wedi iddo dderbyn cam gan arall, yn gadael i hynny ei gyffroi a pheri iddo ddial ar y sawl a wnaeth gam ag ef. Y mae'r gwir Gristion yn rhydd oddiwrth ysbryd dialgar. Un o ysbryd goddefgar ydyw, ac ni chosp oni wel fod hynny er lles y troseddwr ac er lles cymdeithas. Yn hyn, fel ym mhopeth arall, yr esiampl fawr i ni ydyw Iesu, a oedd bob amser yn gwneud a oedd er lles arall.

TÂN MAWN.

Gwnai llwyd fawn o gawn gweunydd—danau gwlad
Cyn dwyn glo i'n broydd;
Trwy fy oes fy hoffter fydd
Gwres mawn o gors a mynydd. *Islan.*

Y Cyrddau Blynyddol.

CYNHALIWYD y Cyrddau Blynyddol yng Nghapel Pantydefaid ar ddiwrnod tesog o haf, a hwyrach bod y rhyfel a'r tywydd yn cyfrif am y cynulleidfaoedd cymharol fychan. Ni ddisgwylid cynulleidfaoedd lluosog ond credaf y gallasai llawer fod wedi dod gydag ychydig bach o ymdrech. Y mae'r rhyfel a'r anghyfleusdra teithio yn *esgus* yn aml ac nid yn *rheswm* dros beidio. Cafwyd pwyllgor gweddol hwylus, a'r ddau brif beth ond odid oedd Casgliad Coleg Caerfyrddin ac apêl y Gymdeithas Gyffredinol am gan mil o bunnau. Hyd y gwelaf, yr oedd y mwyafrif yn barod i bleidio y naill a'r llall *ar air* o leiaf. Fy hunan nid oeddwn yn gweld yn glir parthed yr apêl. Rywsut teimlaf fod y Gymdeithas Gyffredinol *out of touch* a Chymru. Ar y llaw arall, ni chredaf y dylasem edrych ar y Gymdeithas fel un i estyn cymorth ariannol a dim ond hynny.

Nid oeddwn yn y Pwyllgor Gwaith, ac oherwydd hynny ni fedrwn ddilyn yr ymdrafodaeth parthed y Cyrddau. Ers blynyddoedd meithion, onid erioed, cynulleidfa y capel y cynhelir y cyfarfodydd ynddo oedd yn gyfrifol am drefnu'r cyrddau, gan ddewis y pregethwyr i wasanaethu. Gwnaethpwyd felly eleni hyd y gwn i ond nid oedd y Pwyllgor Gwaith yn fodlon i'r hen drefen eleni. Ni wn a gredir fod Pantydefaid wedi cwtogi gormod drwy roi ond un bregeth yn yr hwyr gan adael y Cyfarfod yn y prynhawn i araith y Llywydd. O leiaf dyna'r drefen eleni, gyda'r Llywydd, y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. yn cael y prynhawn iddo ef ei hun, a chefais innau oedfa fer yr hwyr i mi fy hun. Ni chredaf y dylasai neb gwyno at y llywydd. Ond yr oedd pob croeso iddynt cyn belled ag yr wyf i yn y cwestiwn. Hwyrach fy mod yn methu ac nad oedd y cyfan ond ysbryd adfywio, ysbryd democrataidd yn mynnu llais yng Nghyfarfodydd y Gymdeithas. Nid awgrymaf nad hynyna a ddylasai fod y drefen ers tro ond yr oedd rhywbeth wedi trwblu'r dŵr cyn i neb ystyried bod yr hen drefen yn llwyd a bratiog. Onid wyf yn camgofio digwyddodd rhywbeth tebig flynyddoedd yn ôl gyda'r Radio.

Dechreuwyd oedfa'r prynhawn gan y Parch. Aubrey Martin a thraddodwyd araith amserol a diddorol gan y Llywydd. (Y mae wedi'i chyhoeddi eisoes). Yn yr hwyr, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. S. E. Bowen a phregethwyd gan yr Ysgrifennydd. Anodd barnu'r cyrddau am nad oes neb yn llawdrwm iawn arno ef ei hunan. Yr oedd yn hyfrydwch gweld wynebau'r hen ffyddloniaid a chredaf ei bod yn werth eu cynnal oherwydd y mae'n haws cadw'r tân ynghyn na'i ail gynneu wedi iddo ddiffodd.

Credaf y dylasem roi ar gôf a chadw bod y Parch. E. O. Jenkins wedi ymddiswyddo wedi pum mlynedd ar hugain mwy neu lai fel

Ysgrifennydd ffyddlon a didwyll. Y mae hyn i'w ddywedyd. Pwy bynnag y sydd yn absennol o'r Cyrddau, nid yr Ysgrifennydd yw hwnnw. Ni wn ai mantais neu anfantais yw cyfnod hir. Gwn fy mod i dros gyfnod byr. Mater o biniwn ond odid. Beth bynnag am hynyna, yr wyf am dalu teyrnged i weithgarwch a ffyddlondeb yr hen Ysgrifennydd gan estyn pob dymuniad da i'r Ysgrifennydd newydd ar ddechrau ei dymor.

T.O.W.

COFNODION Y CWRDD BUSNES.

CYNHALIWYD y cyfarfod blynyddol ym Mhantydefaid, Awst 2, 1944, y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. yn llywyddu, ac yn arwain mewn gweddi. Cyfeiriodd yn dyner at ein colled ym marwolaeth y Parchn. H. H. Ceiron Jones, B.A., Y.H., Aberdeen a D. Rhoslwyn Davies, Manceinion. Llongyfarchodd y Parch. D. Jacob Dafis ar ennill ohono y radd o B.A. ym Mhrifysgol Cymru.

GRANTS.—Gwnaed fel a ganlyn : Aberystwyth, Caerfyrddin, Llundain £7 10s. yr un ac i'r General Assembly £6 6s.

COLEG CAERFYRDDIN.—Apeliwyd gan y Prifathro dros y Gronfa Adnewyddu. Penderfynwyd cyflwyno'r apel i sylw y cynulleidfaoedd, a bydd i'r Prifathro hefyd eu hannerch ymhellach ar y mater. Ar gais rhai chwiorydd a oedd yn bresennol penderfynwyd galw sylw Cynghrair y Gwragedd at y mater.

CAPITAL FUND Y GENERAL ASSEMBLY.—Penderfynwyd ein bod yn cyflwyno'r apel i sylw ein cynulleidfaoedd.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD.—Derbyniwyd yr adroddiad, a diolchwyd iddo am ei wasanaeth.

YMDDISWYDDIAD.—Ar ymddiswyddiad yr ysgrifennydd, y Parch. E. O. Jenkins, mynegwyd gyda brwdfrydedd ein gwerthfawrogiad o'i wasanaeth am chwarter canrif.

CYRDDAU'R HYDREF.—Derbyniwyd yn ddiolchgar wahoddiad Trebanos i'w cynnal yno ar Dachwedd 8, dydd hanner canmlwydd agor Capel y Graig.

Y LLYWYDD.—Gwahoddwyd y llywydd am 1944-45, Mr. John Evans, C.S., Beilicadarn, i gymryd y gadair, a diolchodd yntau i'r cyn-lywydd am ei wasanaeth yn ystod y flwyddyn.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.—Penderfynwyd fod y Gymdeithas yn benthyg arian i Bwyllgor yr Ysgolion Sul i dalu am gyhoeddi "Egwyddorion yr Undodiaid" a'r "Holwyddoreg" ar yr amod fod y cynulleidfaoedd yn gwneud ymdrech i ad-dalu'r ddyled yn fuan.

CYNULLEIDFA LLUNDAIN.—Derbyniwyd gyda hyfrydwch benderfyniad y gynulleidfa Undodaidd Gymraeg Llundain i fod yn aelod o'r Gymdeithas.

YSGRIFENNYDD.—Ysgrifennydd newydd y Gymdeithas yw'r Parch. S. E. Bowen, Alltyplaca.

Y TRACTOR.

Y fan lle bo'r cawr tanllyd—e hawlia
Olew i'w lais cryglyd ;
Gweithiwr craff er gwaetha'r cryd
Fe yf ond fe â hefyd. *Islan.*

Gohebiaeth.

TRI "ANFFYDDWYR" !

YCHYDIG ddyddiau'n ôl, a mi heb ddim arall i ymddiddori ynddo, bum yn bwrw golwg o newydd dros y gyfrol gyntaf o'r *Gwyddionadur* (1861). O dan y gair "Anffyddiaeth" gwelais a ganlyn, ac ni allwn beidio a chwerthin rhag ofn imi wylo :

> "Y mae y wasg anffyddol yn ffrwythlawn ac yn ymffrostgar yn America a Lloegr y dyddiau hyn. Y rhai sydd wedi hynodi eu hunain yn benaf ydynt F. W. Newman, Theodore Parker, R. W. Greg, etc. Y mae y dynion hyn yn gwisgo eu hanffyddiaeth mewn geiriau crefydd ; ond profant wirionedd y dywediad ' fod hen gyfeiliornadau yn fynych yn ymwisgo mewn enw newydd ' . . . "

Undodwyr goleuedig oedd y tri "anffyddwyr" a enwir yn y dyfyniad. Un o bregethwyr enwocaf Lloegr Newydd yn ei ddydd oedd Theodore Parker, ac y mae miloedd yn darllen ei bregethau a'i weddiau cyhoeddedig hyd heddiw. Brawd i'r diweddar a'r byth-gofiadwy Cardinal Newman oedd F. W. Newman ; bu am amser yn athro mewn coleg mawreddog, ac fe gyhoeddodd lyfrau lawer—rhai o'r gweithiau mwyaf defosiynol a welodd y byd erioed. A gwyr pob Undodwr—a phob llenor gwerth ei halen, o ran hynny —am weithiau llenyddol R. W. Greg.

Ni wn i a fuasai unrhyw ysgolhaig yn swyddfa Gee heddiw yn beiddio galw'r tri gwyr enwog hyn yn "anffyddwyr" !

Dyserth, Gogledd Cymru. D.D.E.

(Da clywed fod Delta yn iach. Ei gyfeiriad presennol yw Four Crosses, Allt y Graig, Dyserth, Sir y Fflint. Drwg gan lu o'i gyfeillion fydd clywed iddo gael ei fomio allan, a cholli bron bob peth.—GOLYGYDD).

COLEG PRESBYTERAIDD CAERFYRDDIN.

CYNHELIR Ad-undeb y myfyrwyr dydd Mawrth, Hydref 3, yn y Coleg, y Parchedig R. Sirhowy Jones, y llywydd am y flwyddyn yn y gadair.

Trefn y cyfarfod :—

2 o'r gloch. Busnes ac anerchiad y llywydd.

3 o'r gloch. Darlith y Dr. Williams's Trust. Y darlithydd yw'r Parchedig Raymond V. Holt, M.A., B.Litt., Prifathro Coleg Undodiaid Manceinion. Testun : "*Protestants and Life of today.*"

Trefnir lluniaeth yn y Coleg ar ôl y ddarlith.

Dymunir ar i'r myfyrwyr hen ac ieuainc wneud ymdrech i fod yn bresennol.

Abergwili. D. WILLIAMS, *Ysgrifennydd.*

Priodasau.

GORFFENNAF 26, yng Nghapel Llwynrhydowen, CECIL JOHN EVANS, Moelhedog Isaf, Pontsian a JENNIE EVANS, Gwarllwynoidos, y Parch. E. O. Jenkins yn gweinyddu.

GORFFENNAF 29, yng Nghapel Rhydygwin, JOHN DANIEL JONES, Cilgwyn Uchaf, Llangybi a Mrs. LEAH MYFANWY FRANCIS, Post Office, Llangybi, y Parch. Lewis Williams yn gweinyddu.

GORFFENNAF 29, yng Nghapel y Graig, Trebanos, WILLIAM THOMAS EVANS, Pontardawe a EDNA EILEEN PERRY, Ynysmeudwy, y Parch. J. Derlwyn Evans yn gweinyddu a'r Parch. J. D. Jones yn ei gynorthwyo.

AWST 5, yng Nghapel Pantydefaid, SAMUEL EMRYS WILLIAMS, Henbant, Capel Dewi a HETTY EVANS, Felin Rhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. Gwilym Evans, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

AWST 16, yng Nghapel-y-Fadfa, y Parch. DAVID JACOB DAFIS, B.A., gweinidog cynulleidfa Heol Newydd, Aberystwyth a Miss ANNIE LEE (LIL) LEWIS, A.L.C.M., Glanyrafon Arms, Talgarreg, a hi am flynyddoedd lawer wedi bod yn neilltuol o ffyddlon fel organyddes yng Nghapel-y-Fadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a E. Gwilym Evans, B.A.

Marwgofion.

GORFFENNAF 4, claddwyd wrth Gellionnen weddillion PHILIP LLOYD Hafodybryn, Trebanos, a gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parchn. J. D. Jones, a Dl. John. Yn annisgwyl y bu ei farw ar Fehefin 30, yn 76 mlwydd oed, ond yr oedd ei iechyd wedi ffaelu ers tipyn o amser. Dyn tawel yn caru bod o gylch ei gartref a'i deulu oedd Mr. Lloyd, dyn aelwyd ydoedd, ac yno y gwelir ei eisiau'n fawr iawn. Hyd y gallodd dilynodd ei waith ym melinau dur Messrs. Gilbertson, ym Mhontardawe, ac enillodd air da ei gydweithwyr a'i gydnabod. Gwelodd gladdu tri o'i blant yng nghanol eu dyddiau, ac mewn galar ar ei ôl y mae ei weddw, un ferch, a thri mab. Cydymdeimlir yn fawr â hwy.

GORFFENNAF 19, yn 72 mlwydd oed, bu farw ANNE JONES, annwyl briod John Jones, Tanybryn, Cwmanne, Llanbedr dan ergyd o'r parlys. Nid oedd wedi bod yn gryf ers tro ac yn y gornel rywsut y carai fod ond nid yn ffaeledig. Yr oedd allan hwyr Sul ar y glâs gerllaw'r tŷ, yn pryderu am gwrdd ac Ysgol Sul ac am ei mab yn Normandi, a dyna'r tro olaf. Cafodd ergyd o'r parlys wrth noswylio, ac ymhen deuddydd yr oedd wedi canu'n iach. Gwraig dawel a gweithgar ydoedd wedi canolbwyntio'i bywyd ar ei haelwyd a'i theulu. Yr oedd gwên ar ei hwyneb a chroeso yn ei chalon bob amser, ac er ei bod wedi arfer cyrchu i Fethel, eto yn ystod y blynyddoedd diwethaf, troe'n fynych i Frondeifi gyda'i phriod a'i theulu. Bydd ei lle yn wag ar aelwyd Tanybryn, a'i phriod yno'n unig yn meddwl amdani. Gadawodd dair merch ac un mab (yntau yn Normandi) heblaw perthnasau a ffrindiau i wylo ar ôl mam garedig, priod ffyddlon a ffrind i lawer. Claddwyd ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams a Daniel Jones, Noddfa.

GYDA gofid dwys y croniclir marw disyfyd trwy greulon law y gelyn Mrs. SARAH ENOCH, Camden Town, Llundain ar yr 2fed o Awst. Prydferth o bersonoliaeth, rhinweddol o gymeriad, a diwenwyn o ysbryd. Enillai barch pawb a'i hadwaenai. Gedy briod ac un ferch, tad a brawd a chwiorydd i alaru ar ei hôl. Wedi gwasanaeth yn nhŷ cyfeillion yn Camden Square o dan arweiniad y Parch. T. Rees Richards, King's Cross dygwyd ei gweddillion i'w claddu ym mynwent Capel Pantydefaid, Llandyssul, Awst 9. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei gweinidog, y Parch. O. R. Jones, Holloway, y Parch. E. Gwilym Evans, Pantdefaid a'r Parch. D. Jones, Vicer Llanfair Orllwyn. Nodded y nef a fyddo dros y teulu a'r perthnasau yn eu profedigaeth lem.

AWST 3, yn 46 mlwydd oed, ar ôl cystudd byr ond caled, ANNIE LLOYD, priod Daniel Lloyd, Felindre-uchaf, Llanfihangel Ystrad. Unig ferch Mr. a Mrs. Jones, Glanwern, ydoedd. Trist iawn ei cholli mor gynnar, gan fod wyth o blant tra ieuainc wedi eu gadael heb fam. Er fod ei theulu yn gofyn am ofal a llafur mawr o'i thu hi, yr oedd ôl glanweithdra ar ei phlant bob amser. Un yn gwneud y cyfan yn ddistaw ydoedd ond yn gwneud pob peth gyda medr mawr. Gellir dweud ei bod yn briod ac yn fam rinweddol. Bydd ei symudiad yn achos cyfnewidiad mawr ym mywyd y tad a'r plant. Hyderwn y bydd i'r gwendid a deimla'r tad ar ôl colli un a oedd o gymaint cymorth iddo fod yn gyfle i nerth Duw ddod i'r golwg, ac y galluogir ein brawd drwy'r nerth hwnnw ddwyn pob baich a osodir arno yn y dyfodol. Claddwyd ym mynwent eglwys Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chymrwyd rhan gan y Parch. John Davies, Ficer Ystrad. Chwaraewyd yr organ gan Mrs. Davies, Caerwilym. Hebław'r priod a'r plant gadawodd dad a mam oedrannus, tri brawd a brodyr yng nghyfraith a chwiorydd yng nghyfraith a pherthnasau eraill mewn galar mawr.

AWST 21, yn ddirybudd, effaith y *flying bomb*, TOM EVANS, 195 Mortimer Road, Llundain, N.W. 10 yn 65 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r diweddar David a Margaret Evans, Ffarm, Talgarreg. Gwasanaethu mewn siop yn Llundain oedd Tom, ac yn gynnar ym mis Awst daeth ef a dwy chwaer iddo, y naill o'r Cymer a'r llall o Fryste, i Dalgarreg i dreulio pythefnos ar yr hen aelwyd. Wedi gwyliau dymunol gyda'u brawd a'u dwy chwaer dychwelasant i'w cartrefi ar ddydd Sadwrn, Awst 19. Felly dim ond un diwrnod cyfan a gafodd ef yn Llundain cyn i'r peth alaethus hwn ddigwydd. Bachgen rhadlon ac o ysbryd caredig oedd Tom, bachgen a hoffid yn fawr gan ei gyfeillion, ac er gadael ohono'r hen aelwyd a'r hen ardal ers blynyddoedd, Ffarm Talgarreg oedd ei gartref a phobl Talgarreg oedd ei ffrindiau. Soniai weithiau am ddod yn ôl i fyw i'r Ffarm gyda'i frawd a'i chwaer. Syfrdanwyd yr ardal pan ddaeth y newydd am ei farw. Yn ôl ei ddymuniad dygwyd ei gorff adref i fynwent Capel y Fadfa. Yr oedd am i'w lwch orwedd yn ymyl ei rieni. Daeth cynulliad cryf ynghyd i'r gwasanaeth angladd y dydd Gwener dilynol. Cymrwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parchn. E. O. Jenkins a H. Ponsford. Ar lan y bedd gwasanaethwyd gan y Parchn. Beynon, Ceinewydd a J. Marles Thomas, M.A. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Ellen Thomas, Green Grove. Gadawodd i alaru ei golli bedair chwaer, tri brawd, a nifer fawr o berthnasau a chyfeillion.

Nodion yr Eglwysi.

CYFEIRIAD NEWYDD.—Sylwer fod y General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches wedi symud i 14, Gordon Square, London, W.C.1. Danfoner pob gohebiaeth i'r cyfeiriad. Y mae'r Lindsey Press wedi symud hefyd i'r un lle.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.